

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

6/4/2017

Presennol: Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothei Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Eifion Roberts, , John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*). Hefyd yn bresennol: Lona Davenport, Heddlu Gogledd Cymru

Ymddiheuriadau: Alun Price, Carol Rowlands

1. Rhoddodd y Maer groeso cynnes i bawb, ac yn arbennig i Dilwyn Jones i'w gyfarfod olaf fel Cynghorydd Tref Y Bala. Mae Mr Jones wedi gwasanaethu trigolion Y Bala am hanner can mlynedd union a thalwyd teyrngedau iddo am ei arweiniad, ei ddoethineb a'i ymroddiad. Dywedodd Mr Dilwyn Jones ei fod wedi gweld newidiadau mawr dros y cyfnod, gyda llai o bwerau i'r Cyngor Tref. Roedd yn ymfalchïo yn natblygiad awyrgylch agored, croesawgar a Chymreig y Cyngor yn ystod ei gyfnod fel Cynghorydd, a dymunodd yn dda iawn i'r Cyngor ac i dref Y Bala yn y dyfodol. Ymatebodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan trwy ddiolch iddo ar ran trigolion y dref a dymuno ymddeoliad dedwydd iddo, gan awgrymu ei fod yn cofnodi ei brofiadau a'i atgofion gwerthfawr.

2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

Yr Heddlu: Anfonodd y Cynghorwyr eu cydymeimlad at yr Heddwes Iwan Roberts yn ei brofedigaeth ddiweddar. Adroddodd Lona Davenport fod y dref ar hyn o bryd yn mwynhau cyfnod tawel o ran troseddau. Trafodwyd problemau parcio ar bafin, ac yn arbennig ar y bont dros afon Tryweryn. Anogodd yr Heddwes i'r cyhoedd ffonio 101 os byddant yn gweld achos o barcio gwael ac os oes heddweision yn yr Orsaf ar y pryd fe fyddant yn dod allan i ddelio gyda'r mater. Mae'r Heddlu wedi tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y broblem ers rhai misoedd. Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan hefyd yn ceisio datrys y problemau a bydd yn holi eto am adfer y llinellau melyn a fyddai'n arfer bodoli yn ardal hen iard yr orsaf.

3. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant Dilys Evans yn eitem 9ii.

4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mawrth 2il, 2017 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig 13/3/17.

5. **Materion y Clerc:**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Lywodraethwr Carchar Wrecsam i lythyr y Cyngor; gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu eto a gwneud sylw o'r mater yn y Wasg os na ddaw ateb buan. Derbyniwyd ateb gan Dafydd Elis Thomas nad oedd carchardai yn dod o dan adain y Cynulliad,

ond dywedodd ei fod wedi cael gwahoddiad i ymweld ac addawodd trafod pryderon Y Bala'r adeg honno. Dywedodd Liz Saville Roberts ei bod yn ymwybodol o bryderon pobl Y Bala a'i bod wedi ysgrifennu at y Llywodraethwr.

6. **Cyngor Gwynedd:** Llongyfarchwyd Cyngorydd Dilwyn Morgan ar gael ei ddewis yn ddiwrthwynebiad i gynrychioli 'r Bala ar Gyngor Gwynedd. Mynegodd ei fod yn falch fod y gwaith o uwchraddio'r Stryd Fawr yn mynd rhagddo a chytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf mater cyflenwi lloches bws a pholyn yn dangos amserlen (fel y cytunwyd rhai blynyddoedd yn ôl) wrth yr Eglwys Babyddol. Cafodd y Cyngorwyr gyfle i roi mewnbwn ar leoliad manau parcio i'r anabl; cytunwyd gyda'r cynnig i ymestyn y zig-zag wrth rif 2 Y Stryd Fawr.

7. **Un Llais Cymru:**

Ni chynhaliwyd yr hyfforddiant ar ddatganoli gwasanaethau 15/3/17; derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod ardal 23/2/17 a thynnwyd sylw fod llywodraeth Cymru yn chwilio unwaith eto am lefydd addas i gladdu gwastraff ymbelydrol. Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf ar 21/6/17.

8. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd ceisiadau

- i. **NP5/53/LB67V** newid drws cefn pren i un dur a gwydr yn Uned 6 Adeiladu'r Aran, 88 – 96 Y Stryd Fawr
- ii. **NP5/53/ADL41S** caniatâd hysbysebion i amnewid arwyddion, HSBC 54-56 Y Stryd Fawr
- iii. **NP5/53/558** adeiladu estyniad deulawr ar yr ochr, Coed Ladur, 14 Cae Gadlas

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i uwchraddio tai ym Maes y Bronnydd a Bro Eryl.

9. **Materion Cyllid**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
 - a. Hysbyseb yn "Y Cyfnod" £40
 - b. Arwyddion Diogelwch gyrwyr beiciau modur - £330. Derbyniwyd sicg gan Heddlu Gogledd Cymru i ddigolledi'r Cyngor am y gwariant hwn.
 - c. Archwiliad mewnol 2015-16 - £115
 - d. PAYE - £511.20
 - e. Ysgol Y Berwyn am lungopio - £12
- iii. Derbyniwyd gohebiaeth Hill & Roberts am PAYE a'r Rheolydd Pensiynau; mae'r cyfan mewn trefn.
- iv. Derbyniwyd gohebiaeth gan BDO am yr archwiliad allanol o'r cyfrifon.

10. **Gohebiaeth:**

- i. **Gwynedd:** Ystyriwyd gohebiaeth am Ganolfan Bro Tegid a chytunwyd i drafod ymhellach gydag Ysgrifennydd y Ganolfan.

- ii. **Un Llais Cymru:** derbyniwyd cadarnhad nad oes angen cyfieithu Cofnodion i'r Saesneg ar gyfer BDO.
- iii. **Arall:** Derbyniwyd gwahoddiad i 2 berson i agoriad swyddogol estyniad Maes Gwyniaid ar 6/5/17 (12.00pm)

Derbyniwyd llythyron yn mynegi diolch am gyfraniadau ariannol.

Derbyniwyd llythyr o gyflwyniad gan is-gadeirydd y Grŵp Twristiaeth.

Derbyniwyd gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfodydd Parc Cenedlaethol Eryri gyda Chynghorau Tref a Chymuned

Derbyniwyd neges gan Katrina Le Saux yn dweud na fyddai bellach yn gallu gwirfoddoli i gynnal y bocs blodau wrth fanc yr HSBC. Cytunwyd i ddiolch iddi am ei gwaith ar hyd y blynyddoedd. Cytunwyd i ofyn i Glwb Garddio Ysgol y Berwyn ymgymryd â'r gwaith a chynnig £50 iddynt i brynu blodau.

- 11. **Partneriaeth Penllyn:** Cytunwyd i adael mater cynnal a chadw llwybrau'r dref i ddoethineb cynrychiolwyr y Cyngor ar y Bartneriaeth; cytunwyd bod angen trafodaeth wyneb yn wyneb rhwng y Bartneriaeth a Chyngor Gwynedd am ddyfodol y toiledau.

- 12. **Asedau'r Cyngor –** Diolchwyr i Eluned Jones a Carol Rowlands ar gychwyn y gwaith o greu portffolio o asedau'r Cyngor a chytunwyd i dalu unrhyw gostau. Mae mater adnewyddu fflag y Domen mewn llaw.

13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Cytunwyd i ysgrifennu i longyfarch Clwb Pêl Droed Y Bala ar fynd i Ewrop ac ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru.
- ii. Cyfeiriwyd at unigolion a busnesau sydd wedi cyfrannu at lesiant trigolion a thaclusrwydd y dref a chytunwyd i drafod sut i gydnabod hyn yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf a'r Cyfarfod Blynyddol – 11/5/17